Bilingual Job Description please scroll for English

## Cynghrair Gweithwyr y Tir – Gweithiwr Prosiect Systemau Bwyd Lleol Cydnerth

**Oriau:** 24 awr (3 diwrnod) yr wythnos.
**Hyd:** Mae'r rôl wedi ei chreu o ddwy ffynhonnell ariannu gwahanol, sydd â dyddiad cwblhau gwahanol. Mae'r ariannu presennol yn cynnwys 3 diwrnod yr wythnos hyd at Fawrth 2023, ac yna 1 diwrnod yr wythnos tan Fedi 2023. Rydym yn gobeithio cael arian ychwanegol er mwyn ymestyn hyn i fis Medi 2023 neu ymhellach.
**Lleoliad:** Gweithio o gartref gyda'r gallu i deithio'n rheolaidd ar gyfer gwaith, digwyddiadau a chyfarfodydd yng Nghymru, yr Alban a Lloegr
**Tâl:*** £17,472 cyflog blynyddol gros PAYE (£29,120 pro rata). Gyda chynnydd blynyddol o 1.5%, yn amodol ar adolygiad. Cyfraniad pensiwn statudol a lwfans gwyliau
**Dyddiad dechrau:** Cyn gynted ag y bo modd yn dilyn recriwtio.
**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** 11.59pm ar y 5ed o Ragfyr
**Cyfnod Cyfweld:** 13eg i 17eg o Ragfyr.
**Gwefan:** landworkersalliance.org.uk

**Mae gan Gynghrair Gweithwyr y Tir (LWA) bolisi cydraddoldeb cyflog a strwythur talu safonol, gyda'r holl weithwyr yn cael eu talu ar yr un gyfradd*

Mae Cynghrair Gweithwyr y Tir (LWA) yn undeb o ffermwyr, cynhyrchwyr, coedwigwyr a phobl sy'n gweithio ar y tir ledled y DU. Ein nod yw gwella bywoliaeth ein haelodau a chreu gwell system o fwyd a thir i bawb. Mae gennym weledigaeth o ddyfodol lle gall cynhyrchwyr weithio ag urddas i ennill bywoliaeth deg, a lle gall bawb gael mynediad at fwyd, tanwydd a ffibrau iachus a fforddiadwy yn lleol - system fwyd a defnydd tir sy'n seiliedig ar agroecoleg a sofraniaeth bwyd, ac sy'n gwella cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol.

Rydym yn sefydliad dynamig a bywiog sydd ar gychwyn cyfnod cyffrous o dwf. Dros y blynyddoedd nesaf anelwn i gynyddu ein haelodaeth yn sylweddol yn ogystal ag ehangu cefnogaeth a gwasanaethau i'n haelodau, ymestyn graddfa ein prosiectau a'n rhaglenni, a hyrwyddo ein safbwyntiau o ran llunio polisïau yn sylweddol a datblygu ein gallu llywodraethu mewnol a sefydliadol ar gyfer y cam twf uchelgeisiol hwn.

### Dull Gweithredu:

Menter gydweithredol i aelodau yw Cynghrair Gweithwyr y Tir, a gynrychiolir gan Grŵp Cydgysylltu o gyfarwyddwyr sydd yn cael eu hethol gan yr aelodau hynny yn y Cyfarfod Cyffredinol blynyddol (AGM). Y Grŵp Cydgysylltu sy'n llywio gwaith strategol, ariannol, llywodraethu a gwleidyddol y sefydliad, ac mae hefyd yn gyfreithiol gyfrifol am reoli a gweithredu Cynghrair Gweithwyr y Tir (LWA). Mae'r staff yn gweithio yn unol ag egwyddorion menter gydweithredol ac ynghyd â chyfrifoldebau swyddi penodol, gall fod gofyn iddynt gymryd rhan mewn Cyfarfodydd Cyffredinol a gweithgorau fel rhan o'u horiau, neu amser ychwanegol â thâl os oes angen.

Caiff Cangen Cynghrair Gweithwyr y Tir (LWA) Cymru ei chydlynu gan 4-6 aelod gwirfoddol wedi'u lleoli yng Nghymru, sy'n trefnu digwyddiadau, hyfforddiant ffermwr i ffermwr, allgymorth ac ymgysylltu gwleidyddol. Gwahoddir holl aelodau Cymru i gymryd rhan a chyfrannu at gyfeiriad y gangen, yn enwedig mewn cyfarfodydd Cymru gyfan.

Nid oes gan Gynghrair Gweithwyr y Tir swyddfa ganolog, ac mae ein staff yn gweithio o bell, ond bydd yn ofynnol iddynt fynychu cyfarfodydd sy'n digwydd mewn lleoliadau amrywiol ledled y wlad. Telir costau teithio rhesymol yn ychwanegol at gyflog, fodd bynnag, mae gofyn bod gan yr ymgeiswyr y sgiliau hanfodol a'r hyder i weithio o bell fel rhan o dîm amrywiol, gyda gallu profedig i hunan-reoli a gweithio'n annibynnol. Rydym yn chwilio am rywun sydd wedi'i leoli yng Nghymru.

Mae angen defnyddio offer TG personol ar gyfer y rôl hon. Os yw hyn yn her i chi, rydym yn eich annog i gysylltu â ni (manylion cyswllt isod), gan nad ydym yn dymuno i hyn fod yn rhwystr i wneud cais.

Rydym wedi ymrwymo i'n Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y rôl hon sy'n teimlo bod ganddynt y profiad a'r sgiliau perthnasol.

**Trosolwg o'r swydd a swydd ddisgrifiad:**

Rydym yn chwilio am gyfathrebwr, hwylusydd a threfnydd medrus a hyderus, sy'n angerddol am adeiladau systemau bwyd lleol a chyda dealltwriaeth o faterion cymhleth a'r ddeinameg o gylch bwyd a ffermio. Mae'r rôl yn cynnwys dau brif brosiect, gyda chyllid ar wahân i'r ddau.

**Gweithiwr Prosiect Systemau Bwyd Lleol Cydnerth (2 ddiwrnod yr wythnos tan 31 Mawrth 2023)**

Mae'r prosiect hwn ar gyfer DU gyfan, gyda thri phrif faes gwaith:

- Cefnogi busnesau newydd a helpu busnesau i newid i gadwyni cyflenwad byr a systemau marchnata uniongyrchol
- Helpu ffermwyr a busnesau bwyd i fynd i'r afael â rhwystrau i ddatblygu systemau bwyd cadwyn gyflenwi lleol a byr trwy gydweithio
- Gwaith ymgyrchu ac eiriolaeth i helpu i greu amgylchedd polisi a rheoleiddio sy'n caniatáu i fusnesau cadwyn gyflenwi leol a byr ffynnu.

Mae'r rôl yn cynnwys: Trefnu a hwyluso gweminarau ac ymweliadau fferm; ymchwilio a datblygu canllawiau ysgrifenedig ar gyfer cynhyrchwyr a busnesau bwyd; meithrin cydweithrediad rhwng systemau bwyd lleol; a datblygu argymhellion polisi perthnasol. Mae cryn hyblygrwydd o ran sut yr ydych yn diffinio eich rôl o fewn y prosiect hwn.

Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Cydlynydd System Bwyd Gwydn a Lleol i gyflawni elfennau

allweddol y prosiect. Mae cryn hyblygrwydd o ran sut rydych chi'n diffinio'ch rôl yn y prosiect hwn, ac i ganolbwyntio ar y meysydd penodol rydych chi'n teimlo sy'n chwarae i'ch cryfderau.

**Cyswllt Prosiect Hybiau Bwyd Cymru (1 diwrnod yr wythnos tan 30 Medi 2023)**

Mae'r rôl hon yn cynnwys gweithio ar brosiect i sefydlu pump o hybiau bwyd lleol ledled Cymru fel rhan o'r prosiect aml-bartner Mannau Gwyrdd Cydnerth <https://www.farmgarden.org.uk/resilient-green-spaces>th dan arweiniad Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol. Bydd y rôl yn golygu gweithio gyda Rhwydwaith Bwyd Agored, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, a Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol. Mae'r gwaith yn ymwneud yn bennaf a defnyddio rhwydwaith LWA i gefnogi llwyddiant y prosiect hwn a chynrychioli buddiannau ein haelodau yn y modd y caiff y prosiect ei weithredu.

Ariennir y swydd hon yn drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru -Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

**Timau**

Bydd y rôl hon yn gweithio'n agos gyda Thîm Prosiect Systemau Bwyd Lleol Cydnerth, y Cydlynydd Cyfathrebu, a Tîm Aelodaeth.

**Cyfrifoldebau penodol a deilliannau'r rôl:**

**Gweithiwr Datblygu Prosiect System Fwyd Lleol Cydnerth**: Gweithio gyda'r Cydlynydd Systemau Bwyd Lleol Cydnerth i ddatblygu'r prosiect. Bydd cyfrifoldebau penodol yn cynnwys

- Trefnu a chynnal gweminarau ar farchnata cadwyn gyflenwi fer.
- Trefnu ymweliadau cyfnewid ffermwyr gan ganolbwyntio ar oblygiadau systemau marchnata'r gadwyn gyflenwi leol a byr ar gyfer systemau cynhyrchu, seilwaith a rheolaeth.
- Meithrin cydweithrediad rhwng gwahanol rannau o'r gadwyn gyflenwi drwy weithdai.
- Cynrychioli Cynghrair y Gweithwyr Tir mewn cyfarfodydd a gweithdai

**Ymgysylltu Prosiect Hybiau Bwyd Cymru:** Cydlynu cyfathrebu a hyrwyddo prosiect penodol i ddechrau, i roi gwybod i ddarpar ymgeiswyr am gyfle'r hybiau bwyd, yna adeiladu sylfaen cwsmeriaid a chynhyrchwyr sy'n defnyddio hybiau bwyd.

- Trefnu a hwyluso cynhyrchwyr i ddefnyddio'r hybiau, gan gynnwys rhoi cefnogaeth a chyngor i ffermwyr a thyfwyr i gynhyrchu a gwerthu'r bwyd drwy'r hybiau.

- Cydweithio â sefydliadau partner i ddarparu pump o hybiau bwyd newydd ledled Cymru, sy'n cynrychioli buddiannau ffermwyr sy'n amaethu ar raddfa fach.
- Cyfathrebu ag aelodau, cyllidwyr a sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y maes.

**Manyleb Person: Bydd gan yr ymgeisydd addas y sgiliau a'r profiadau canlynol**:

Hanfodol:

- Profiad o drefnu ar lawr gwlad neu adeiladu aelodaeth ar gyfer sefydliad ( yn ddelfrydol, undeb

neu sefydliad cymunedol).

- Cyfarwydd â materion sy'n wynebu amaethyddiaeth a defnydd o dir yng Nghymru, y gadwyn gyflenwi bwyd.
- Sgiliau trefnu personol rhagorol a gallu wedi'i brofi o hunan reoli a gweithio'n annibynnol
- Sgiliau cyfathrebu da.
- Gallu gwneud cyflwyniadau cyhoeddus yn hyderus.
- Hwyluso cyfarfodydd gyda hyder ac adeiladu perthnasau hirdymor.
- Gallu i deithio i gyfarfodydd a digwyddiadau (rhaid meddu ar Drwydded Yrru Llawn)
- Angerdd ac ymrwymiad i agroecoleg a system fwyd gwell.

Dymunol:

- Sgiliau a hyder wrth weithio a chydweithio fel rhan o dîm amrywiol a phrysur sy'n gweithredu o fewn egwyddorion cydweithredol.
- Profiad o weithio'n dda mewn partneriaeth â sefydliadau bwyd, fferm a defnydd tir eraill
- Profiad o greu cyfnewid gwybodaeth neu ddeunyddiau addysgol.
- Hyderus i ddefnyddio excel a chronfeydd data, a dylunio cylchlythyrau ar lwyfannau fel Mailchimp.
- Mwynhau gweithio gyda rhifau, cyllid, modelau busnes a deunyddiau crai o sut i wneud busnesau bwyd a fferm gymhleth i weithio'n llwyddiannus.
- Profiad o drefnu digwyddiadau.
- Profiad o redeg neu weithio i fusnesau seiliedig ar y tir.
- Cyfarwydd gyda llwyfannau marchnata digidol.

**Sut i wneud cais**

Dylech yrru 3 tudalen (mwyafrif) o ymateb ysgrifenedig yn Saesneg, neu gallwch gyflwyno cais sain/ fideo (dim hirach na 5 munud).

- Pa brofiadau gredwch chi sy'n eich cymhwyso ar gyfer y rôl hon, a pha sgiliau fyddech yn dod gyda chi i'r gwaith hwn?
- Pa ran o'r rôl hon y meddyliwch fyddai fwyaf heriol i chi?
- Sut fyddech chi yn mynd ati i ddod â grwpiau gwahanol o ffermwyr a busnesau bwyd at ei gilydd - sydd â'r posibilrwydd o fod a blaenoriaethau a diddordebau gwahanol - i ddatrys problemau neu chwalu rhwystrau sy'n bodoli er mwyn datblygu systemau bwyd lleol?

Hefyd, dylech atodi CV fer (dim mwy na 2 dudalen), ac fel uchod, gellir ei gyflwyno un ai ar bapur neu fel ffeil sain neu fideo, yn ogystal â manylion cyswllt dau berson y gallwn gysylltu atynt ar gyfer geirda

Anfonwch eich cais at: admin@landworkersalliance.org.uk gyda'r pennawd: admin@landworkersalliance.org.uk gyda phennawd Gweithiwr Prosiect Systemau Bwyd Lleol Cydnerth.

Rydym yn anelu i gysylltu gyda phob ymgeisydd yn unigol, ond gan mai tîm bychan yn gweithio rhan amser ydyn ni, efallai na fydd hyn yn ymarferol bosib. Os nad ydych yn clywed gennym erbyn 22ain o Ragfyr yna'n anffodus dylech gymryd na fyddwch wedi cael eich dewis ar gyfer cyfweliad y tro hwn

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech drafod unrhyw agwedd o'r rôl cyn cyflwyno eich cais,

cysylltwch â Charlotte Steel Cydgysylltydd AD) - charlotte.steel@landworkersalliance.org.uk neu tony.little@landworkersalliance.org.uk (Cydlynydd Prosiect Systemau Bwyd Lleol Cydnerth). E-bostiwch ymhell o flaen y dyddiad cau.

# The Landworkers' Alliance - Resilient Local Food Systems Project Worker

**Hours:** 24 hours (3 days) per week.
**Duration:** This role is supported by two separately funded projects which have different end dates. Current funding covers 3 days per week until March 2023 and then 1 day per week until September 2023. We hope to get additional funding to extend the full role to September 2023 or beyond.
**Location:** Working remotely from home with the capacity for regular travel for work, events and meetings in Wales, Scotland and England
**Remuneration:*** £17,472 gross annual salary PAYE (£29,120 pro rata). With 1.5% annual increase, subject to review. Statutory pension contribution and holiday allowance.
**Start date:** ASAP following recruitment.
**Closing date for applications:** 5th December (11.59pm)
**Interview period:** week commencing 13th December
**Website:** landworkersalliance.org.uk
**The LWA has a pay parity policy and flat payment structure, with all workers paid at the same rate.*

The Landworkers' Alliance (LWA) is a union of farmers, growers, foresters and land-based workers operating across the UK. Our mission is to improve the livelihoods of our members and create a better food and land-use system for everyone. We have a vision of a future where producers can work with dignity to earn a decent living and everyone can access local, healthy and affordable food, fuel and fibre - a food and land-use system based on agroecology and food sovereignty that furthers social and environmental justice.

We are a dynamic and vibrant organisation that is in an exciting phase of growth. Over the coming years we aim to significantly increase our membership base and expand member support and services, scale-out our projects and programmes, significantly advance our positions in policy making and develop our internal governance and organisational capability for this ambitious stage of growth.

**Mode of Working:**

The LWA is a members' cooperative represented by a Coordinating Group of directors elected by members at the Annual General Meeting. The Coordinating Group steers the strategic, financial, governance and political work of the organisation and is also legally responsible for the management and operation of the LWA. Staff work in line with cooperative principles and in addition to specific job responsibilities may be required to participate in General Meetings and work teams as part of their hours, or additional paid time if needed.

The LWA does not have a centralised office and our staff work remotely but may be required to attend meetings that take place in various locations around the country. Reasonable travel costs will be covered in addition to the salary, however, this means candidates must have the skills and confidence to work remotely as part of a diverse team and a proven capacity to self-manage and work autonomously.

The use of personal IT equipment is required for this role. If this poses a challenge for you we encourage you to get in touch (contact details below) as we do not wish this to be a barrier to applying.

We are committed to our Equality and Diversity Statement and we welcome and encourage applications from anyone interested in this role who feels they have the relevant experience and skills.

**Role overview and job description:**

We are seeking a confident, skilled communicator, facilitator and organiser, who is passionate about building local food systems and has a good understanding of the complex issues and dynamics surrounding food and farming. The role consists of two main projects, each with separate funding.

**Building Resilient and Local Food Systems Project Worker (2 days per week)**

This project is UK wide and has three main areas of work:

- Supporting start-ups and helping businesses switch to shorter supply chains and direct marketing systems.
- Helping farmers and food businesses address and overcome barriers to developing local and short supply chain food systems through cooperation.
- Campaigning and advocacy work to help create a policy and regulatory environment that allows local and short supply chain businesses to thrive .

The role involves: Organising and facilitating webinars and farm visits; researching and developing written guides for producers and food businesses; fostering collaboration within and between local food systems; and developing relevant policy recommendations.

You will be working closely with the Resilient and Local Food System Coordinator to deliver the key elements of the project. There is considerable flexibility about how you define your role within this project, and to focus on the specific areas which you feel play to your strengths.

**Welsh Food Hubs Project Liaison (1 day per week)**

This role involves working on a project establishing five local food hubs throughout Wales as part of the multi-stranded, multi-partner Resilient Green Spaces project, led by Social Farms & Gardens. The role will work with Open Food Network, Development Trusts Association Wales, and Social Farms & Gardens. The work primarily involves leveraging the LWA network to support the success of this project, and representing the interests of our membership in how this project is implemented.

This post is funded through the Welsh Government Rural Communities Rural Development Programme 2014-2020, which is funded by the Welsh Government and the European Union.

**Teams**

This role will work closely with the Resilient Local Food Systems Project Team, the Communications Coordinator, and the Membership Team.

**Specific responsibilities and outputs of this role will be:**

**Resilient Local Food System Project Development Worker**: Working with the Resilient Local Food Systems Coordinator to develop the project. Specific responsibilities will include:

- Organising and running webinars on short supply chain marketing.
- Organising farmer exchange visits focusing on the implications of local and short supply chain marketing systems for production systems, infrastructure and management .
- Fostering collaboration between different parts of the supply chain through workshops.
- Representing the Landworkers' Alliance at meetings and workshops

**Welsh Food Hubs Project Liaison:** Coordinating project specific communications and promotion, initially, to inform potential applicants about the food hub opportunity, then to build the customer base and producers using the food hubs.

- Organising and facilitating producers to use hubs, including providing support and advice to farmers and growers to produce food for and sell through food hubs.
- Collaborating with partner organisations to deliver five new food hubs across Wales representing the interests of small-scale farmers.
- Communicating with members, funders and other organisations working in the field.

**Person Specification: The appropriate candidate will have the following skills and experiences**:

Essential:

- Experience of grassroots organising or membership building for an organisation (ideally a union or community organisation).
- Familiarity with the issues facing UK agricultural sector and the food supply chain.
- Excellent personal organisation skills with proven capacity to self-manage and work autonomously.
- Good communication skills.
- Confidence in doing public presentations.
- Confidence facilitating meetings and building long term relationships.
- Ability to travel for meetings and events (you must hold a full Driving licence)
- A passion and commitment to agroecology and a better food system.

Desirable:

- Strong skills and confidence working and collaborating as part of a diverse, busy team operating with cooperative principles.

- Experience working well in partnership with other food, farming and land use organisations
- Experience creating knowledge exchange or educational materials.
- Confidence using excel and databases, and designing newsletters on platforms such as Mailchimp.
- A taste for numbers, finance, business models and the nuts and bolts of making complicated food and farm businesses work.
- Event planning experience.
- Experience running or working for a land-based business.
- Familiarity with digital marketing platforms.

**How to apply**

Send (max) 3 pages written response in  English, or alternatively (max) 5 minutes audio / video.

- What experiences do you think qualify you for this role, and what skills will you bring to this work?
- Which part of this role do you think you would find the most challenging?
- How would you go about bringing diverse groups of farmers and food businesses together- potentially with different interests and priorities - to solve problems or remove barriers to developing local food systems.

Also attach a short CV (max 2 pages), as above this can be written, or an audio or video file, and the contact details of two people we can approach for references.

Please send your application to: admin@landworkersalliance.org.uk  with 'Local Food Systems Project Worker in the subject heading.

We aim to contact all applicants individually but as we are a small team working part-time this may not practically be possible. If you have not heard from us by December 22nd please assume that unfortunately you have not been selected for an interview this time.

If you have any questions, or would like to discuss any aspect of this role in advance of applying please contact Charlotte Steel (HR Coordinator) - charlotte.steel@landworkersalliance.org.uk or tony.little@landworkersalliance.org.uk (Resilient local food systems project coordinator).  Please email well in advance of the closing date.